# Niferoedd hysbysebion a sut maent yn cael eu hamserlennu ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus

Diweddariad ar adolygiad Ofcom o reoleiddio

**Trosolwg**

Cyhoeddwyd 19 Medi 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................................ 3

# 1. Trosolwg

1.1 Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gyllidir yn fasnachol yn y DU yn ddarostgynedig i gyfyngiadau llymach o ran niferoedd hysbysebion teledu a sut maent yn cael eu hamserlennu na sianel masnachol eraill. Cafodd y rheolau gwahaniaethol hyn eu cyflwyno ym 1991, gan ragflaenydd Ofcom, y Comisiwn Teledu Annibynnol.

1.2 Bu newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff teledu ei ddosbarthu a'i wylio ers hynny, gan gynnwys ymestyn teledu aml-sianel a chyflwyno gwasanaethau teledu ar-alw a gwasanaethau ffrydio ar-lein. Mae gan gynulleidfaoedd fynediad nawr at amrywiaeth ehangach o opsiynau gwylio, ac wrth iddynt dreulio llai o amser yn gwylio cynnwys ar-alw, mae cyfraddau gwylio teledu darlledu wedi bod yn gostwng.[1] Yn erbyn y cefndir hwn y penderfynom ni gynnal adolygiad i'r rheolau llymach sy'n rhan o God Ofcom ar Amserlennu Hysbysebion Teledu (COSTA).

1.3 Y prif gwestiwn y ceisiom ei ofyn oedd a ellid cyfiawnhau'r rheolau llymach neu a oeddent yn gymesur i gyflawni eu diben bwriadedig gwreiddiol o sicrhau ansawdd yr amgylchedd gwylio ar sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Ystyriom hefyd ein dyletswydd gyfreithiol i beidio â chynnal rheoleiddio diangen. Yn rhan o'n hystyriaeth o'r rheolau llymach, ceisiom ddeall pa effaith y gallai dileu'r rheolau ei chael ar gynulleidfaoedd ac ar y farchnad.

1.4 Yn dilyn cais am dystiolaeth ym mis Gorffennaf 2022 i geisio barn gychwynnol rhanddeiliaid ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn diwygio'r rheolau, cyhoeddom ymgynghoriad ym mis Ebrill eleni gyda'n safbwynt dros dro nad oedd modd cyfiawnhau'r rheolau llymach bellach na'u bod yn gymesur. Cynigiom ddau opsiwn ar gyfer dileu rhai o'r rheolau llymach neu'r cyfan, ond roeddem yn agored o hyd i gadw'r rheolau fel y maent, yn dibynnu ar yr ymatebion a dderbyniwyd gennym.

### Beth rydym wedi'i benderfynu – yn gryno

- Rydym wedi penderfynu i beidio â dileu'r rheolau hysbysebion llymach yn COSTA sydd ond yn berthnasol i sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd.
- Byddai dileu'r rheolau llymach sy'n berthnasol i sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn unig yn golygu y byddai gwylwyr yn wynebu mwy o hysbysebion, ac yn benodol mae'n debygol iawn y byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn munudau hysbysebu ar y sianeli hynny yn ystod yr oriau "brig" (18:00 i 23:00) sy'n cynnwys newyddion, a allai arwain at leihau munudau newyddion. Fel y nodom yn ein hargymhellion i Lywodraeth y DU (Gorffennaf 2021), a alwodd am adnewyddu'r system darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae newyddion yn genre arbennig o bwysig o ran cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n darparu gwerth cymdeithasol uchel.
- Rydym o'r farn o hyd bod manteision posibl i ddileu'r rheolau COSTA llymach. Gallai argaeledd hysbysebion ychwanegol ar sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus arwain at effaith ddatchwyddol ar draws pob math o hysbysebion teledu a allai helpu i arafu ei gystadleurwydd disgynnol o'i gymharu â mathau eraill o hysbysebion, a gallai fod o

[1] Rhwng 2017 a 2021, dirywiodd teledu darlledu ar gyfradd o 31 y person bob dydd; ar yr un pryd tyfodd gwylio gwasanaethau fideo ar-law trwy danysgrifiad ar gyfradd o 40 munud y person bob dydd. Tyfodd gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr ar gyfradd o chwe munud y person bob dydd dros y cyfnod hwn hefyd. Wedi'i fodelu o ddata BARB, Comscore ac IPA TouchPoints.

fantais i gynulleidfaoedd petai sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn denu refeniw ychwanegol drwy werthu rhagor o funudau hysbysebion ac ail-fuddsoddi hyn mewn cynnwys. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y manteision hyn yn ansicr ac y byddent yn debygol o wahaniaethu rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

- Rydym yn credu o hyd bod y rheolau COSTA llymach ar gyfer sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ond yn darparu manteision cyfyngedig i ddinasyddion a defnyddwyr. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn cael effaith sylweddol ar ansawdd yr amgylchedd gwylio ar sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac eithrio yn ystod oriau newyddion brig. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd y manteision posibl i gynulleidfaoedd, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r farchnad ehangach, ynghyd â gostyngiad tebygol mewn munudau newyddion brig ar sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai cydgordio'r rheolau nawr yn cam cadarnhaol i ddinasyddion a defnyddwyr ar wahân i ystyried newidiadau rheoleiddio eraill.
- Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r safbwynt hwn fel rhan o'n hystyriaeth o newidiadau eraill i'r system darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys rhai sy'n codi yn sgil gweithredu'r Bil Cyfryngau. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried effaith newidiadau i'r rheolau COSTA ar wylwyr yn fwy cyfannol, yng nghyd-destun hawliau a rhwymedigaethau eraill sy'n berthnasol i sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

*Crynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio yn unig yw'r trosolwg. Mae'r penderfyniadau a wnaed gennym, ynghyd â'n rhesymau, wedi'u nodi yn y ddogfen lawn (Saesneg yn unig).*